
*Rhif*: **2** *Enw'r Ardal Cymeriad Morwedd:* **Ynys Aberteifi i Benrhyn Cemaes**




**ACM2:Ynys Aberteifi i Benrhyn Cemaes**



*Edrych ar draws y bae tuag at Ynys Aberteifi d*



*Edrych i'r gorllewin o Benrhyn Cemaes*

| Disgrifiad cryno |
| --- |
| Ymyl aber yr afon Teifi a'r bae allanol tua'r môr, wedi'i nodi gan Benrhyn Cemaes i'r gorllewin ac Ynys Aberteifi i'r dwyrain. Nodir Penrhyn Cemaes gan glogwyni serth ond heb fod yn fertigol ac ardaloedd eang o fosaig rhostir, gyda'r tir yn codi y tu ôl. Mae gan Ynys Aberteifi glogwyni isel ac ymylon serth gyda chromen wair noeth. Mae yna olygfeydd panoramig o'r pentiroedd. |
| **Nodweddion allweddol** |
| • Y clogwyni tywodfeini a cherrig llaid yn cyrraedd clogwyni 175mAOD ar y pentiroedd i'r de. Mae'r tirffurf yn is i'r gogledd ac ar Ynys Aberteifi mae tua 50mAOD.<br>• Mae'r môr bas yn gysylltiedig ag aber yr afon Teifi, ond yn fwy agored i wyntoedd ac ymchwydd o'r gorllewin neu'r gogledd gyda hinsawdd tonnau gerwin o gwmpas Penrhyn Cemaes<br>• Gorchudd tir gwledig a bugeiliol yn bennaf heb anheddiad gyda llystyfiant arfordirol lled-naturiol a rhostir mewn rhai mannau.<br>• Mae llwybr yr arfordir ar Benrhyn Cemaes ychydig yn ôl o ymyl y clogwyn ond yn ail ymuno â phen y clogwyn i gyfeiriad y gorllewin.<br>• Mae teithiau bywyd gwyllt yn digwydd o gwmpas Ynys Aberteifi i weld y dolffiniaid ac y mae yna botio a rhai rhwydi gosod.<br>• Mae yna olygfeydd panoramig yn bosibl o Benrhyn Cemaes ac mae'r ardal yn agored a phellennig.<br>• Diffyg llygredd golau yn gyffredinol. |
| **Dylanwadau Ffisegol** |
| Mae'r ddau bentir creigiog amlwg hyn wrth geg dyffryn yr afon Teifi yn cydgysylltu â chlogwyni o dywodfeini trawiadol Ordovician a cherrig llaid sy'n serth ond heb fod yn fertigol. Mae culfor Cardigan Sound (<5m) yn gwahanu Ynys Aberteifi yn llanwol sydd a chlogwyni is (51m aod) ac ymylon serth. Mae'r pentir yn codi yn fewndirol i 187m aod i'r de o Benrhyn Cemaes. Mae'r arfordir yn gilfachog gan gildraethau bychain, ac mae yna greigiau ar hyd gwaelodion y clogwyni, ac y mae yna ogof ger Penrhyn Cemaes. Mae'r parth rhynglanw yn cynnwys glannau creigiog ynni uchel, gyda graean bras mewn cildraethau ar yr ochr. Mae'r arfordir yn agored i erydu trwy weithredu hydrolig, ysgrafellu ac athreuliad.<br><br>Ffurfir y gwely môr bas (<30m), sy'n goleddu'n gymedrol ($1\text{-}10^0$) gan dafodau o glymfeini anrhefnus sy'n gwyntyllu o gwmpas pentiroedd Penrhyn Cemaes ac Ynys Aberteifi. Mae tywod graeanog yn ffurfio gwely môr ar draws yr aber agored. Mae'r gwaddodion yn gorchuddio y tywodfeini Ordovician a chreigwely y cerrig llaid. Mae'r moroedd yn agored i wyntoedd uchel a gwasgiant y tonnau. Mae ochr ddwyreiniol Ynys Aberteifi yn fwy cysgodol, ond yn gyffredinol mae'r pentiroedd yn agored. Mae'r cerrynt llanw wedi'u gosod gogledd ddwyrain a de orllewin. Mae llif y llanw yn isel (<1 knot). Amrediad y llanw yw 4.1m.<br><br>Mae'r ardal yn ffurfio rhan o SAC Bae Ceredigion. Mae ymyl arfordirol y bae yn SSSI- yn Aberarth- Carreg Wylan. Mae Ynys Aberteifi yn Ardal Adar Bwysig [RSPB] ar gyfer adar môr sy'n bridio. Mae dolffiniaid trwynbwl, bas a hyrddiaid yn defnyddio'r dyfroedd hyn ac y mae cynefin creigiog arfordirol ynni uchel yn gorwedd ar y lan. Uwchben y blaendraeth mae'r clogwyni yn rhannol yn fertigol a chreigiog, ac yn rhannol yn cynnwys llystyfiant. Mae cynefinoedd ar ben y clogwyni a llethrau'r arfordir yn cynnwys glaswelltir a rhywfaint o rostir. Mae porfa barhaol a gwell ynghyd â gwrychoedd isel yn gorwedd ar y tir sy'n codi'n raddol uwchben. Uwch ei glogwyni, mae gan Ynys Aberteifi ardal o gromen raddol o laswelltir agored. |
| **Dylanwadau Diwylliannol** |
| Ceg un o afonydd mawr Cymru, yn fordwyol i fyny at Gilgerran, ac sy'n gwasanaethu tref Aberteifi, gyda'i hanes hir o fasnach arfordirol a morol. Mae defnydd hanesyddol morol yn cynnwys allforio coed a llechi, ac ymfudo. |

Fel ardal forol dim ond ychydig nodweddion sy'n bodoli. Dim ond llongddrylliad yr Herefordshire, a suddodd yn 1943, sy'n cynnig tystiolaeth weledol o ddefnydd morol hanesyddol, llong cargo o ddur a adeiladwyd ar gyfer y Bibby Line gan Harland a Wolf, Belfast, yn 1905. Roedd yn parhau'n gyfan yn y 1960au hwyr, gyda'r boileri a'r peiriannau in situ, ond mae'r lleoliad agored yn awgrymu fod y llong erbyn hyn wedi ei dryllio.

Mae heneb gofrestredig yn gorwedd yn CD280 (Caer Bentir Trwyn Picton): cymuned: y Ferwig

Mae hwylio iotiau a chychod modur allan o'r afon Teifi yn boblogaidd ond braidd yn gyfyngedig oherwydd heriau mordwyol dod yn ôl dros y bar wrth geg yr aber. Mae pysgota môr o fadau yn boblogaidd yn ogystal â deifio. Mae llongau pysgota lleol bychain yn defnyddio rhwydi a photiau yn enwedig o gwmpas all frigiadau creigiog a'r ynys.

Mae gwylio dolffiniaid yn digwydd y tu mewn i Ynys Aberteifi o'r lan ac oddi ar deithiau bad. Mae gwylio adar yn bosibl o Benrhyn Cemaes a'r tir mawr gyferbyn ag Ynys Aberteifi. Mae cerdded ar hyd Llwybr yr Arfordir yn ddifyrrwch poblogaidd hefyd. Mae'r traethau yn anghyraeddadwy.

Mae gan yr ardal drwydded Round 24 ar gyfer olew a nwy yn y dyfroedd allanol ac mae'n rhan o faes tanio Aberporth ac yn ardal ymarferion militaraidd.

## Nodweddion esthetig, canfyddiadol a phrofiadol

Mae'r ddau bentir yma yn nodi'r mynediad i aber yr afon Teifi, gan greu ffrâm ddeinamig i'r bae. Mae'r raddfa yn fawr ac mae'r ansoddau yn amrywio o arwedd y clogwyni yn enwedig i'r de mewn cyferbyniad â thir ffermio bugeiliol llyfnach ac esmwythach i gyfeiriad y gogledd.

O uchderau Penrhyn Cemaes sy'n brif dirnod cyfeiriad, mae yna olygfeydd panoramig ar draws y bae a thuhwnt, a golygfeydd hirion nôl ar hyd yr aber. Mae yna olygfeydd panoramig dros y môr agored sydd mae'n debyg yn ddinodwedd yn gyffredinol ac ar hyd yr arfordir i'r de orllewin. Mae yna syniad o berygl a chyffro ar ymyl y clogwyn, yn enwedig mewn gwyntoedd cryfion ond mae'n llonydd ar ddiwrnod tawel. Nid oes mynediad cyhoeddus i Ynys Aberteifi. Yn gyffredinol mae yna ddiffyg llygredd golau.

Mae tonnau yn taro yn erbyn y glannau creigiog. Ar y dŵr, mae amddiffynfa'r pentiroedd yn diflannu'n gyflym wrth fod yn agored i'r gwyntoedd o'r de orllewin, cerrynt llanw a môr mwy agored ymhellach o'r lan.

## Buddion diwylliannol a gwasanaethau

Mae'r ardal yn cyfrannu at wasanaethau hamdden ac adloniadol yn enwedig i gerddwyr ar hyd llwybr yr arfordir ac ar lun y pentir pellennig gyda'i olygfeydd panoramig a rhywfaint o hwylio, at dreftadaeth naturiol ar lun y pentiroedd garw a'r cynefinoedd i adar sy'n bridio a dolffiniaid, ac i wasanaethau diwylliannol ac ysbrydol mewn perthynas â'r ymdeimlad o ddiffeithwch a phellenigrwydd.

## Rhesymau dros newid

| Crynodeb | | Rhesymau allweddol dros newid | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Erydu arfordirol araf o glogwyni creigiog. Cynllun rheoli'r traeth yn datgan 'gwneud dim'.<br><br>Gall defnydd mwy dwys o lwybr yr arfordir arwain at erydu.<br><br>Gall gweithgareddau amaethyddol megis magu da byw ar raddfa fechan ddod | Rhinweddau Arbennig | Prosesau naturiol/newid hinsawdd | Gwasgedd ymwelwyr | Defnydd morol- masnachol a physgota | Egni ar y môr | Gwasgedd datblygiad | Newidiadau rheoli tir | Defnydd MOD |
| | Ysblander yr arfordir | | | | | | | |
| | Ynysoedd | | | | | | | |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| yn amhroffidiol, a gallai arwain at golli tir pori a rheoli gwrychoedd.<br><br>Ymyrraeth posibl cetaceans. | Amrywiaeth y Tirlun | | | | | | | |
| | Pellenigrwydd, Tawelwch a Diffeithwch | | | | | | | |
| | Daeareg Amrywiol | | | | | | | |
| | Cyfoeth Cynefinoedd a Bioamrywiaeth | | | | | | | |
| | Archaeoleg Gyfoethog | | | | | | | |
| | Cymeriad Anheddiad Nodedig | | | | | | | |
| | Treftadaeth Ddiwylliannol | | | | | | | |
| | Mynediad i'r Parc | | | | | | | |
| | Lle i Anadlu | | | | | | | |
| | **Allwedd** | | Newid yn digwydd yn yr ardal sy'n effeithio ar y nodwedd arbennig ddewisedig | | | | | |

**Sensitifeddau allweddol**

Cymeriad pellennig, diffaith a heb ei ddifetha

Pentiroedd amlwg iawn ac ynys agored.

Bywyd gwyllt yn cynnwys dolffiniaid ac adar y môr.

Llwybr Arfordir Sir Benfro yn dderbynnydd sensitif.

Diffyg cyffredinol llygredd golau.

Maes tanio Aberporth ac ardal ymarfer militaraidd.